

Hysbysiad cofrestru buddiannau 2025: David Francis

Diddordeb cofrestradwy	Disgrifiad o'r diddordeb	Cofnod (nodwch DIM lle bo hynny'n berthnasol)
Taliadau	Disgrifiad o: (a) dâl a dderbynnir yn rhinwedd eich bod yn – (i) gyflogedig neu hunangyflogedig; (ii) deiliad swydd; (iii) cyfarwyddwr ymgymeriad; (iv) partner mewn cwmni; (v) aelod o unrhyw sefydliad; (vi) cymryd rhan mewn masnach, proffesiwn, galwedigaeth neu unrhyw waith arall; (b) unrhyw lwfans a dderbynnir mewn perthynas ag aelodaeth o unrhyw sefydliad; (c) enw (ac enw cofrestredig os yw'n wahanol) a natur unrhyw gyflogwr, hunangyflogaeth, partneriaeth, busnes, menter neu sefydliad perthnasol; (d) natur a rheoleidd-dra'r gwaith am dâl; ac (e) enw'r swydd cyfarwyddwr a natur y busnes perthnasol.	Unig gyfarwyddwr Parclands Consulting Ltd, derbyn incwm buddrannau ar sail ad hoc
Gwaith cysylltiedig	Enw a disgrifiad unrhyw swydd cyfarwyddwr nad yw ei hun yn cael ei dalu ond sydd o gwmni neu fenter sy'n rhiant neu'n is-gwmni i gwmni neu fenter sydd â thâl.	Dim
Contractau	Disgrifiad o natur a hyd (ond nid gwerth) contract nad yw'n cael ei weithredu'n llawn ble: (a) mae nwyddau a gwasanaethau i'w darparu i Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu mae gwaith i'w wneud ar eu cyfer; ac (b) mae gennych fuddiant uniongyrchol, neu fuddiant anuniongyrchol fel partner, perchennog neu gyfranddaliwr, cyfarwyddwr neu swyddog busnes neu fenter, mewn contract o'r fath.	Mae Parclands Consulting Ltd yn darparu gwasanaethau cyfrifyddu i Cowshed Communications, cwmni cysylltiadau cyhoeddus a marchnata sy'n darparu gwasanaethau i nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Fy ngwraig yw sylfaenydd a rheolydd cyfarwyddol Cowshed Communications

Diddordeb cofrestradwy	Disgrifiad o'r diddordeb	Cofnod (nodwch DIM lle bo hynny'n berthnasol)
Cyfranddaliadau a gwarantau	Disgrifiad (ond nid gwerth) cyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni, menter neu sefydliad a allai fod yn arwyddocaol i waith yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu a allai effeithio arno.	Dim
Buddiannau nad ydynt yn ariannol	Disgrifiad o fuddiannau a allai fod yn arwyddocaol neu'n berthnasol i waith yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru neu gorff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys (heb ragfarnu'r cyffredinolrwydd hwnnw) aelodaeth neu swydd o fewn: (a) cyrff cyhoeddus eraill; (b) clybiau, cymdeithasau a sefydliadau; (c) undebau llafur; a (ch) mudiadau gwirfoddol.	Fel y datgelwyd o dan "contractau" uchod. Sylwch fy mod yn dal Swyddi Cyfarwyddwr gwirfoddol yn Ymddiriedolaeth Brandon, Undeb Hoci Cymru Cyfyngedig a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig ac yn dal swyddi llywodraethwr gwirfoddol ym Mhrifysgol De Cymru ac Ysgol Gyfun Gwynllyw. Mae fy ngwraig yn Gyfarwyddwr anweithredol Hybu Cig Cymru a Bwrdd Cyngori Marie Curie Cymru.
Datgeliadau partïon cysylltiedig	Disgrifiad o unrhyw drafodion partïon cysylltiedig yr oeddech yn ymwybodol ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.	Dim

Enw (printiwch): DAVID FRANCIS

Llofnod:

Date: 3 April 2025